Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Cenedlaethol **Cymru**

Helpwch ni i ddarganfod sut mae pethau **yn eich ardal** chi

**Yn yr arolwg diwethaf…**

**84%**
**yn fodlon gyda'u hardal leol**

**23%**
**â chyfrifoldebau gofalu**

**2%**
**ar ei hôl hi gyda'u rhent neu forgais**

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2024-25

Gwelwch ganlyniadau'r arolwg ar
**llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru**

**Helpu sefydliadau cyhoeddus fel GIG Cymru, cynghorau lleol a Llywodraeth Cymru i ddeall beth sy'n bwysig i bobl yn eich ardal**

## Cwestiynau cyffredin

### Pam ddylwn i gymryd rhan?

Yr arolwg hwn yw eich cyfle i rannu eich barn a'ch profiadau am amrywiaeth o bynciau, yn cynnwys iechyd, addysg a'ch ardal leol. Bydd eich atebion yn ein helpu i wneud Cymru'n lle gwell i fyw.

Mae pawb sy'n cymryd rhan yn **derbyn cerdyn rhodd o £15** i ddiolch iddynt.

### Beth sy'n digwydd i fy atebion?

Bydd eich atebion yn cael eu cadw'n gyfrinachol a dim ond ar gyfer gwaith ymchwil y byddant yn cael eu defnyddio.

Mae rhagor o fanylion am y ffordd rydyn ni'n storio a phrosesu gwybodaeth ar **llyw.cymru/arolwgcenedlaetholgwyb**

### Sut ddewiswyd fy nghyfeiriad?

Cafodd eich cyfeiriad ei ddewis ar hap o restr o gyfeiriadau yng Nghymru y mae'r Post Brenhinol yn ei dal ac sydd ar gael i'r cyhoedd.

### Beth os ydw i'n methu ateb neu ddim yn teimlo'n gyfforddus yn ateb cwestiwn?

Mae'r cwestiynau yn yr arolwg yn wirfoddol, a gallwch anwybyddu unrhyw gwestiynau nad ydych yn gyffordddus yn eu hateb neu os nad ydych yn gwybod yr ateb.

### Gaf i gymryd rhan mewn ieithoedd eraill?

Gallwch gwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os hoffech gymryd rhan mewn iaith arall, gallech ofyn i aelod o'r teulu neu gyfaill gyfieithu i chi. Gallwn ni drefnu cyfieithydd i chi hefyd. Ffoniwch ni ar y rhif isod i drefnu hyn.

### Pwy sy'n gwneud yr arolwg?

Y National Centre for Social Research (NatCen) ar ran Llywodraeth Cymru.

## Ac os oes gen i anghenion ychwanegol, neu gwestiynau eraill?

Ffoniwch ni ar **0800 652 9294**, e-bostiwch **arolwgcenedlaethol@natcen.ac.uk** neu ewch i **llyw.cymru/arolwgcenedlaetholgwyb**

SAMPLE